

## **Cyngor Cymuned Llanelian (295)**

Cofnodion cyfarfod Chwefror 13, 2018 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

**Presennol:** Dafydd Griffiths, Helen Hughes, John Griffiths, Hefina Williams, Glenys Jones, Ian Evans, Thomas Jones, Elfyn Hughes, David Gerrard.

**Ymddiheuriadau:** Gordon Hayes, Carol Whitaker, Cyng Richard Griffiths, Cyng Aled Jones

**Yn bresennol:** Carli Evans Thau (Clerc)

### **1 Croeso**

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths, ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod.

### **2 Datgan Diddordeb**

Neb

### **3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir cynnig Thomas Jones, eilio Helen Hughes

### **4 Materion yn Codi o'r Cofnodion**

#### **4.1 Panel Adolygiad Annibynnol**

Dosbarthwyd gopi o'r ddogfen ddraft wedi ei lunio mewn ymateb i'r ymgynghoriad. Pawb oedd yn bresennol yn hapus a'i gynnwys ac iddo gael ei gyflwyno i'r panel.

#### **4.2 Arolwg Tai**

Cafwyd trafodaeth dwys ynglŷn a'r arolwg anghenion tai oedd wedi ei gynnal yn ddiweddar. Roedd yr aelodau yn siomedig iawn nad oedd atebion i'w cael yn y cyfarfod agored; erbyn hyn mae wedi cadarnhau bod Grwp Cynefin wedi prynu datblygiad Dublin yn ei gyfarwydd ond nid oes cadarnhad hyd yma o'u bwriad gyda'r tai. Teimlwyd mai pwrpas yr arolwg oedd nid i ganfod yr angen am dai yn yr ardal fel oedd y cyngor yn ei obeithio, ac fel y drafodwyd yng nghyfarfod mis Mehefin 2017, ond yn hytrach i ganfod pwy oedd am gael ty yn y datblygiad newydd ac felly cadarnhau cefnogaeth i datblygiad Dublin ac o bosib hefyd datblygiad ar dir Y Bedol.

Cytuno ysgrifennu at Dylan Owen Hwylusydd Tai Glwedig Annibynnol i'w wahodd i'r cyfarfod nesaf, ac estyn gwahoddiad hefyd i gynrychiolydd o Grwp Cynefin. Byddai hyn yn gyfle i gael cyflwyniad ar y data a gafwyd a chanlyniadau'r arolwg a gofyn cwestiynnau ynglŷn a Grwp Cynefin a'u cynlluniau ar gyfer y pentref.

Cafwyd ebost gan Gwyn Roberts yn gofyn i'r cyngor gefnogi cais i gadw'r enw 'Dublin' ar y datblygiad newydd. Roedd yr aelodau'n gefnogol.

Nodwyd bod y datblygiad yn agos iawn i ben Lon Gors a Maes Llwyfo. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu a CSYM wirio bod y datblygiad o fewn y ffiniau cywir.

#### **4.3 Lon yr Ysgol**

Nid oedd ymateb gan yr adran addysg nac ychwaith gan berchennog y tir gyfagos. Cytuno cyaylltu eto a'r adran addysg am wybodaeth perthnasol.

#### **4.4 Giat y Fynwent**

Cafwyd wybod gan y clerc bod cyfarfod ar y safle wedi ei drefnu yr wythnos gynt ond bod wedi ei ohurio oherwydd y tywydd. Gobeithio ail drefnu cyn gynted a phosib.

#### **4.5 Materion Priffyrdd (Llwybrau Cyhoeddus)**

Nodwyd bod yr arwydd ger Pen Lon wedi ei drwsio erbyn hyn. Nodwyd nad oedd y llwybr/palmant ger y Bedol wedi cael sylw ac fe ofynnwyd i'r clerc gysylltu eto.

### **5 Caeau Chwarae** - Dim diweddariad.

### **6 Llithrfa** - Dim diweddariad.

## **7 Cynllunio**

### **7.1 Ceisiadau** – roedd tri cais i'w ystyried:

1) Plot 1 Cerrig Man - pryderu ynglyn a chymal yn ymwneud a dwr a charffosiaeth ac am yr effaith bosib ar gymdogion cyfagos, disgwylir bydd adroddiad a sylwadau dwr cymru ynglyn a'r trefniadau arfaethiedig.

2) Plot 2 Cerrig Man - fel 1 uchod.

3) Cae Gron, Llanelian - Gwrthwynebu - Mae dau annedd yma o fewn yr adeilad yn barod. Mae'r aelodau wedi gwrthwynebu cais I godi annedd arall yn yr ardd yn ddiweddar iawn am y byddai yn or-ddatblygiad o'r safle a bod pryder am fynediad. Teimlai'r aelodau byddai caniatáu'r cais yma yn creu tri annedd o fewn yr un adeilad ac yn or-ddatblygiad o'r safle ac roedd pryderon eto am fynediad ar lon sydd wedi ei rhannu ag aneddau eraill

### **7.2 Penderfyniadau** – cafwyd wybod am benderfyniadau y Cyngor Sir fel a ganlyn: Dim gwybodaeth.

### **7.3 Canllawiau Cynllunio Atodol Wylfa Newydd** – esboniodd Dafydd Griffiths bod y ddogfen swmpus yma yn crynhoi disgwyliadau'r Cyngor Sir wrth ystyried datblygiad Wylfa Newydd h.y tai, trafnidiaeth ayyb. Nododd fodd bynnag bod peth gwrth ddweud o fewn y ddogfen. Cytuno bod Dafydd Griffiths a John Griffiths yn ymateb ar ran y Cyngor gan eu bod yn cynrychioli'r cyngor ar Bartneriaeth Cynghorau Gogledd Mon ac yn fwy cyfarwydd a'r dogfennau dan sylw.

## **8 Materion Ariannol**

### **8.1 Taliadau**

£50.00 Cymdeithas y Leinws  
£565.88 Cyflog Clerc – Ionawr  
£49.88 Viking Direct (inc)

### **8.2 Ceisiadau am Arian**

Cafwyd gais gan Cylch Meithrin Penysarn am gyfranniad tuag at adnoddau cyfrifiadurol TG. Gofynnwyd a oedd y grwp wedi gofyn i'r ysgol am gefnogaeth. Nodwyd bod yr ysgol wedi cyfrannu'n hael tuag at ddatblygu'r ardal tu-allan. Nodwyd hefyd bod y Cylch wedi cael adroddiad da iawn llynedd a bod y grwp yn weithgar iawn i godi eu harian eu hunain. Cytuno cyfrannu £100, cynnig Helen Hughes, eilio Ian Evans.

### **8.3 Cofrestr Asedau**

Dosbarthwyd copi o'r drafft diweddaraf ymysg yr aelodau. Nodwyd nad oedd mainc newydd wedi ei gosod ger yr eglwys eto. Y clerc i gysylltu a CSYM i wneud trefniadau i ddanfon y mainc. Roedd yr aelodau yn hapus a'r ddogfen a'r pris gwariant, Cwestiynwyd pam fod angen cynnwys rhai eitemau ar y rhestr o gwbl gan nad oeddent yn cadw eu gwerth ac felly ddim yn asedau e.e. sedd swing.

Gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau gyda Zurich faint yn fwy fyddai cost yswiriant petai'r holl eiddo wedi ei yswirio yn ogystal a 'public liability'.

## **9 Cronfa Ty Moel Isaf** - Dim diweddariad.

## **10 Iechyd a Diogelwch** - Dim byd i'w nodi.

## **11 Wylfa Newydd**

Nodwyd bod Horizon yn ymgynghori ar dir ychwanegol ar gyfer bywyd gwyllt a chadarnhau'r tir fydd ei angen ar gyfer gwelliannau i'r lon tuag at Valley. Nid oedd gwrthwynebiad i'r tir ychwanegol.

Nododd Dafydd Griffiths bod y Bartneriaeth gyda cynghorau eraill gogledd Mon yn parhau i gwrdd yn rheolaidd i drafod datblygu dogfen tir cyffredin. Mae arbennigwyr wedi eu penodi erbyn hyn i gefnogi'r bartneriaeth.

## **12** **Gohebiaeth**

**12.1 Prisiau Claddu** – daw gwybodaeth gan Gwyn Roberts am brisiau claddu Eglwys Llanwenllwyfo. Cytuno byddai prisiau claddu Mynwent Eilian a Bosra yn cael eu arolygu yn y cyfarfod nesaf. Y clerch i ddsbarthu prisiau claddu cymunedau eraill cyfagos er cymhariaeth.

**12.2 Un Llais Cymru** – cytuno ymaelodi ag Un Llais Cymru am y flwyddyn ariannol nesaf. Cost Aelodaeth yw £183.00

**12.3 Siapio Cymunedau** – bydd Dafydd Griffiths a Hefina Williams yn mynychu'r gweithdy sydd i'w gynnal gan CSYM.

## **13** **Unrhyw Fater Arall**

**13.1 Arwyddion Ffordd** – nododd Ian Evans ei fod wedi siomi gweld pobl leol yn cyfeirio at Lon Lletroed fel 'Gypsy Lane' ar y we. Cytuno gofyn i CSYM am arwydd ar ben y lon yn nodi'r enw cywir. Mae hefyd angen arwydd ger Lon Gors yn y pentref a hefyd Lon Gilfach ar Fynydd Eilian. Mae'n bwysig bod yr hen enwau Cymreig yn cael eu diogelu.

**13.2 Bin Baw Cwn** – nodwyd bod angen bin baw ci ar ben Lon Lletroed. Y clerch i wneud ymholiadau.

**13.3 Tai Mwd** - nodwyd bod y draen dal yn llawn dwr ond bod marciau gwyn wedi ymddangos ar y lon erbyn hyn. Y clerch i wneud ymholiadau eto.

**13.4 Bod Hyfryd** – nodwyd bod tipi a bloc o doiledau wedi eu datblygu yma er gwaethaf methu a chael caniatad cynllunio a cholli apel. Mae nifer o gwynion yn lleol ac mae adran gorfodaeth cynllunio CSYM yn ymwybodol. Fe ofynnwyd i'r clerch gysylltu a Cyng Aled Jones i godi ymwybyddiaeth.

## **14** **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Bydd y cyfarfod nesaf Mawrth 13 am 7 o'r gloch.

Bu'r cyfarfod orffen am 20.50.

**Arwyddwyd**  
**Dafydd Griffiths**  
**Cadeirydd**